Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

Gwybodaeth i Gleifion

Prawf PSA

Adran Wroleg

Efallai eich bod wedi cael y daflen hon gan eich bod eisoes wedi bod am brawf gwaed antigen prostad benodol (PSA) neu gan fod eich meddyg wedi gwneud cais am wneud prawf o'r fath arnoch. Defnyddir profion PSA i helpu i ddod o hyd i ganser y prostad neu i fonitro cynnydd cleifion wedi triniaeth canser y prostad.

Beth yw PSA?

Protein naturiol sy'n cael ei gynhyrchu'n unig gan y celloedd sy'n leinio chwarren y prostad yw PSA. Mae'n helpu i wneud eich semen yn hylifol wedi i chi alldaflu. Gellir mesur lefelau PSA drwy gymryd sampl gwaed o'ch braich. Gall lefelau uchel o PSA ddangos i'ch meddyg bod posibilrwydd o ganser prostad.

Beth mae'r canlyniadau'n ei olygu?

Er mai dyma'r prawf gorau sydd ar gael i ddod o hyd i ganser y prostad ar hyn o bryd, gall lefelau PSA fod yn uchel am resymau eraill heblaw am ganser. Felly, nid yw lefel PSA uchel yn golygu ei bod yn sicr bod canser ar eich prostad. Rhestrir rhesymau eraill dros lefelau PSA uwch na'r arferol isod.

- Prostad Chwyddedig (Hyperplasia Prostadaidd Anfalaen)
- Prostatitis – llid ar chwarren y prostad
- Llid ar y tract wrin

Ddylwn i gael prawf PSA?

Nid oes tystiolaeth gref eto yn awgrymu y dylai pob dyn dros 45 oed, sef pryd mae'r risg o ddatblygu canser y prostad yn dechrau cynyddu, gael cynnig prawf PSA. Yn sicr, nid oes rhaglen sgrinio swyddogol yn y DU i chwilio am ganser y prostad. Mae'r prawf gwaed yn cael ei gynnig ar hyn o bryd i gleifion sy'n dangos symptomau a allai gael eu hachosi gan ganser y prostad, ac hefyd i ddynion sy'n gwneud cais amdano wedi iddynt gael eu cwnsela'n briodol.

Mae'n bwysig eich bod yn deall y prawf PSA a'r hyn y gallai'r canlyniadau ei olygu.

Mae manteision ac anfanteision cael prawf PSA yn cynnwys:-

- Nid canser y prostad yn unig sy'n arwain at lefelau PSA uchel. Mae hyn hefyd yn golygu nad yw lefel PSA isel o anghenraid yn golygu nad oes canser yn y prostad ac nid yw lefelau PSA uchel wastad yn golygu bod canser yn y prostad.

- Os yw canlyniad y PSA yn uchel efallai y bydd angen biopsi arnoch i weld ai canser sy'n gyfrifol ai peidio.

- Os yw'r PSA yn isel, efallai y cewch gyngor i wirio'ch PSA yn flynyddol. Efallai y bydd angen biopsi arnoch yn y dyfodol os yw eich PSA yn dechrau codi.

- Mae gan ddynion sydd â hanes cryf o ganser y prostad yn y teulu fwy o risg o ddatblygu canser y prostad na dynion heb hanes teuluol ohono. Efallai y defnyddir profion PSA i fonitro'r dynion hyn.

Fydd angen i'r Meddyg wneud profion eraill?
Archwiliad bys o'r rectwm (DRE). Mae chwarren y prostad ychydig o flaen y rectwm a gellir ei deimlo drwy roi bys yn y rectwm i deimlo am unrhyw beth annormal. Mae hyn yn peri embaras i rai dynion, ond mae'n gyflym ac ni ddylai fod yn boenus.

Beth os yw fy DRE yn annormal neu fy PSA yn uchel?
Bydd eich meddyg yn trafod a oes angen Sgan Transrectaidd Uwch Sain (TRUS) a biopsi ar y prostad arnoch, gan mai dyma'r unig ffordd o gadarnhau a oes canser yn eich prostad ai peidio. Bydd y meddyg yn trafod biopsi gyda chi os oes angen un arnoch. Byddwch hefyd yn cael gwybodaeth ysgrifenedig am hyn.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon, gweler y manylion cyswllt isod ar gyfer y wardiau Wroleg a'r nyrsys Wroleg:-

Wroleg Ward D 2 Dwyrain
01633 234043 / 234044 (24 awr)

Adran Cleifion Allanol Wroleg
01633 234979
Oriau swyddfa dydd Llun - dydd Gwener

Ward Dydd Wroleg
01633 656378 / 656377
Oriau swyddfa dydd Llun - dydd Gwener

Nyrsys Clinigol Arbenigol Wro-Oncoleg
Julie Simpson
Sian Lewis
Louise Broadway
Kathleen Connor-Middleton
01633 238976 (Bydd yn dychwelyd negeseuon llais pan nad ydynt ar ddyletswyddau clinigol)
Oriau swyddfa dydd Llun - dydd Gwener

Ymarferydd Nyrsio Wroleg
Laura Reynolds
Leanne Denning
01633 234758
Oriau swyddfa dydd Llun - dydd Gwener

Ymholiadau llawdriniaeth/cyn-derbyn
01633 234970 / 238568
Oriau swyddfa dydd Llun - dydd Gwener

Cyfeiriadau:

Tanagho E A McAninch J W 2003. Smiths General Urology

"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/
This document is available in English".